# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION


'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 37. RHIF 11 | EBRILL 2016 | 50c


# CYFROL I GYNORTHWYO YSBYTY BRESENNOL SHILLONG



*Dr. Elwyn Richards yn cyflwyno y gyfrol*




*Cynheiliaid y Cyfarfod: John P. Lyons, Elwyn Richards, D. Ben Rees a Trefor Lewis*

*Lluniau: Dr. John G. Williams*

Diwrnod i'w drysori oedd Dydd Llun, 22 Chwefror pan ymddangosodd cyfrol hardd i glodfori sylfaenydd Ysbyty Shillong, Dr. H. Gordon Roberts (1885-1961). Llywyddwyd gan John P. Lyons a chafwyd cyfraniadau gan y Parch Trefor Lewis, Cantorion Bethel, Dr. Elwyn Richards, Dr. John G. Williams a Dr. D. Ben Rees.

*(parhad ar dudalen 12)*





**YN Y RHIFYN HWN:**

COFFÂD I OLWEN OWEN,
ALUN ROBERTS, GLYN WILLIAMS,
ANNA ELIZABETH WILLIAMS.
NEWYDDION BETHEL, BETHANIA,
CYMRY LERPWL,
CYMRY BIRKENHEAD.
DOSBARTH Y DYSGWYR

Golygyddol

# *Pleidleisio Ddwy Waith Eleni –*

## *gan D. Ben Rees*

Cawn gyfle ardderchog i bleidleisio haf eleni, ym mis Mai a mis Mehefin. Yng Nghymru, yr Alban, Llundain bydd angen pleidleisio am aelodau'r Cynulliad a welir yng Nghaerdydd a Chaeredin ac am Faer newydd y ddinas fawr Llundain.

Yn Lerpwl y mae angen i ni ystyried cynrychiolwyr ar Gyngor y Ddinas, dewis Maer i Lerpwl, a hefyd Comisiynydd yr Heddlu. Ac ar 23 Mehefin bydd pleidlais dyngedfennol am ein perthynas gyda'r Undeb Ewropeaidd. Y mae'r dewis yn un am byth, **AROS** neu **ADAEL**, a dechreuodd y dadlau eisioes ar y cyfryngau o awr i awr! Cofiaf yn dda y Refferendwm yn 1975, y tro hwnnw y Blaid Lafur oedd mewn Llywodraeth, ac yn rhanedig fel ag y mae y Llywodraeth Dorïaidd bresennol. Ond gwnaeth y pleidleiswyr yr adeg honno fynegi ei hunain yn glir iawn. Deunaw miliwn am aros yn y Farchnad Gyffredin a saith miliwn os y cofiaf am ddod allan, ac yr oeddwn i yr adeg honno o ymysg y rhai a gollodd!

Lle yr ydwyf yn sefyll yn 2016? A ydwyf yn mynd i bleidleisio 41 mlynedd yn ddiweddarach dros Adael fel y gwnaethum y tro olaf y cefais gyfle. Ar hyn o bryd yr ydwyf yn teimlo fod pleidleiswyr llawr gwlad yn gwylio yn bryderus y Prif Weinidog sydd wedi ein harwain i sefyllfa enbyd. Yn fy marn i nid oedd angen refferendwm o gwbl, a'r unig reswm y cawson un oedd fod David Cameron am roddi taw unwaith am byth i'r holl Aelodau Seneddol o'i blaid sydd yn casáu Ewrop gyda chas berffaith. Yr ofn sydd arnaf i fod gadael yr Undeb Ewropeaid yn mynd i ddarnio y Deyrnas Unedig. Y mae SNP yn yr Alban yn frwdfrydig dros aros yn yr Undeb, a go debyg yw barn pobl Cymru. Y mae Cymru yn cael llawer mwy allan o Ewrop nac y maent yn ei dalu i fewn i Ewrop. Ac am y ffermwyr y mae eu dyfodol hwy yn dibynnu'n llwyr am gymorthdaliadau o Ewrop. Felly Lloegr a'r Blaid Dorïaidd sydd yn rhanedig gan fod y Blaid Lafur, y Blaid Ryddfrydol a'r pleidiau llai i gyd am Aros fel ag yr ydym ar hyn o bryd. Dylem gael cyfarfod i drafod yr holl oblygiadau haf eleni. ***Watch this space!***

# LLONGYFARCH MRS GWYNETH THOMAS

Cafwyd dathliad unigryw yn hanes Cymry Penbedw ar ddydd Sul Ionawr 10fed pan ddathlwyd penblwydd Mrs Gwyneth Thomas yn gant oed. Daeth nifer o aelodau'r Gymdeithas gyda theulu a ffrindiau eraill at ein gilydd yn New Brighton i gyfarch a llongyfarch Gwyneth ar achlysur mor arbennig a chafwyd prynhawn hapus a hwyliog. Ymysg y cyfarchion – yn cynnwys cerdyn Cymraeg gan y Frenhines, darllenodd Gwyneth neges gan ein Cymdeithas yn diolch am ei chyfraniad i'r Gymdeithas o'r dyddiau cyntaf a'u chyfraniad i'n holl weithgareddau.

Bu Gwyneth yn llywydd fwy nag unwaith a chyfrannodd ei ffraethineb hwyliog – miniog – at lawer rhaglen. Bu'n gyfeilydd i'r parti canu am flynyddoedd a mawr oedd ein hedmygedd o'i gallu i chwarae'r piano heb ddarn o gerddoriaeth o'i blaen.

Ganwyd Gwyneth Eluned ym Mangor, ond daeth i Benbedw yn 1952 er mwyn hwyluso bywyd teuluol gyda gŵr a thad yn glanio yn y Mersi. Roedd ac mae, Cymreictod Gwyneth yn rhan hanfodol ohoni a glynodd at ei chapel yn Seion, Laird Street, y gymdeithas, ei ffrindiau a'i hiaith.



Bellach mae hi'n byw mewn cartref gofal yn New Brighton lle mae ei ffraethineb a'i hysbryd bywiog a hiwmor yn ei gwneud yn ffefryn gan bawb. Ar y dydd Llun canlynol daeth Maer Cilgwri, y Cynghorydd Les Rowlands i'w chyfarch, gyda blodau, anrheg a cherdyn a chafwyd ail barti hyfryd yn y cartref gofal.

Mwynhaodd y Maer ei sgwrs gyda Gwyneth gan rhyfeddu at ei ffraethineb hwyliog a'i hatgofion difyr. Gwnaeth y chef, deisen yn dwyn y ddraig goch, gyda geiriau Cymraeg, a danteithion da. Dathliad hyfryd i ferch arbennig iawn, a dymuniad pob un o'i chyfeillion yw iddi barhau mewn iechyd a hwyl i'r dyfodol fel ag y bu yn y gorffennol.



*Coffâd*

# OLWEN OWEN, MANCEINION

**(1918-2016)**

"Fi fydd eu Duw nhw, a byddan nhw'n blant i mi." Rhufeiniaid 21:7.

Yr oedd Olwen yn argyhoeddiedig ei bod yn un o blant Duw ac yr oedd hi'n ddiolchgar am gael y fath fraint.

Ganwyd Olwen ar yr 8fed diwrnod yn yr 8fed mis ym 1918, y pumed o saith o blant.

Cafodd ei geni mewn fferm ger Rhuthun ond symudodd i fyw y tu allan i Lanelwy yn 7 oed. Ar ôl gadael yr ysgol gwnaeth brentisiaeth mewn cynhyrchu melysfwydydd yn Ninbych. Symudodd i Swinton yn 17 mlwydd oed i fyw gyda'i chwaer Gwen a'i brawd yng nghyfraith Owen William Davies i ymarfer ei chrefft. Dyna newid ar fyd! O Ddyffryn Clwyd i ddinas fawr Manceinion.



Wrth gwrs yr oedd y capel yn bwysig ac yr oedd digon o gapeli Cymraeg ym Manceinion. Aeth Olwen gyda'i chwaer i Gapel Pendleton ac yr oedd y cyfnod yma o'i bywyd yn amser braf. Roedd 'bwrlwm' yn y gymdeithas Cymraeg gyda llawer o weithgareddau yn cymeryd lle, gwasanaethau drwy'r dydd ar y Sul, cyfarfodydd yn ystod yr wythnos, eisteddfodau, cymanfaoedd canu, ymarferion côr a mabolgampau. Roedd gan Olwen bersonoliaeth fywiog, ac yr oedd yn ddawnus mewn sawl ffordd.

Hoff gyfarfod Olwen ym mywyd y Capel oedd y *'CHRISTIAN ENDEAVOUR'* neu 'CE' wedi cwpaned o dê ar nos Sul. Yno dysgodd sut i arwain cyfarfodydd a chymeryd cyfrifoldeb. Gyda dim ond un arweinydd hŷn yn bresennol a phawb arall yr un oed â hi nid oes dim rhyfedd ei bod yn dweud fod y llythrennau 'CE' yn sefyll am 'Courting Encouraged'!

Cyfarfu â'i darpar ŵr Owain Gwynedd Williams yn ystod yr adeg yma. Priododd y ddau ohonynt yn 1943 a chawsant ddwy ferch Ruth a Bethan. Bu farw Owain yn 1971. Cafodd Olwen llawer o gysur oddiwrth ei theulu ac yr oedd hi wrth ei bodd cael bod yn Nain a difetha ei phedwar o wyrion.

Yr oedd Olwen yn weithgar iawn yn y Capel. Dywedodd un o'i ffrindiau amdani, "Ffydd a Chymreictod Olwen oedd yn fy nharo ac roedd yn rhan annatod o brofiad Capel Pendleton". Yr oedd yn arwain y canu yn y gwasanaethau ac yn cystadlu yn yr Eisteddfod hyd oedd dros ei nawdegau. Yr oedd ei dawn i ganu yn arbennig gyda mwy o argyhoeddiad na lawer i gerddor proffesiynol.

Etholwyd hi fel blaenor yn 1976, a rhoddodd ei holl egni i'r swydd allweddol. Yr oedd yn gallu annog ac ysbrydoli eraill yn ei ffordd gyfeillgar ei hun. Yr oedd hi'n gefn i'r achos pan symudodd Eglwys Pendleton o Cheetham Hill i Monton ac wedyn i Noddfa, Oaker Avenue. Yn y blynyddoedd diwethaf pan na allai mwyach fynd i wasanaethau Cymraeg yr oedd Olwen yn hoff o wylio rhaglenni teledu a gwrando ar wasanaethau crefyddol i gynnal ei ffydd.

Ail briododd Olwen gyda Goronwy Owen yn 1985. Cawsant amser hapus gyda'i gilydd yn arbennig yn teithio'r byd a chwarae bowls a mynychu yr oedfaon. Yn anffodus bu i iechyd y ddau ddirywio gyda threiglad amser a bu'n rhaid symud o'i fflat i Gartref Beechfield, Salford. Bu Goronwy farw yn 2009.

Pan ddirywiodd golwg Olwen yr oedd aelodau'r eglwys a'i merch Bethan yn ddarllen pob gair o gylchlythyr y Capel a'r blwyddlyfr - ar wahan i'r cyfrifon. Yr oedd hi'n cofio Salmau a darnau o'r Ysgrythur eraill ar ei chof a byddai'n ymuno â mi i'w dweud. Derbyniai faeth ysbrydol yn Swper yr Arglwydd ac roedd yn caru yr emynau. Byddem yn gweddïo gyda'n gilydd ac yr oedd yn cymeryd rhan bob amser. Felly bu ei ffydd yn real iawn iddi hyd y diwedd.


Mae'r darn yr ydym wedi ei ddarllen heddiw, Datguddiad 21:1-7, yn llawn o gysur a gobaith – yn y nefoedd newydd a'r ddaear newydd ac ni fydd unrhyw dristwch na dagrau, dim dioddefaint, dim drygioni.

Credaf y bu y rhan yma o'r Ysgrythur yn ysbrydoliaeth i Olwen ar ei thaith arbennig ac yn awr mae hi yn y Golau tragwyddol, ym mhresenoldeb Duw a'i golwg yn berffaith. Bydd hi, mewn ysbryd, yn dal i'ch caru ac yn gweddïo drosoch – felly cofiwch a siaradwch amdani yn aml a diolch i Dduw am ei bywyd hir yn llawn ffydd, cadernid a chariad. Dywedodd Iesu yn nameg y talentau: 'Da was, da a ffyddlon ac ewch i mewn i lawenydd dy Arglwydd'. Dyna lle mae Olwen yn awr ac rydym yn diolch i Dduw amdani.

*Eleri Edwards*

# CORNEL Y TRYSORYDD

## EBRILL 2016



| | |
|---|---|
| Mr John Thomas, Mossley Hill | £20.00 |
| Mr Aled Lewis Evans, Wrecsam | £11.00 |
| Rhodd Cymdeithas Gymraeg, Lerpwl | £25.00 |
| Mrs Undeg Cole, Y Mymbls | £11.00 |
| Miss Hilda Lloyd, Rainhill | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£92.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cynhaliwyd Cyfarfod Dosbarth Lerpwl yn Eglwys Bethel ar bnawn Llun, 22 Chwefror i gyflwyno cyfrol Dr. D. Ben Rees, ein Gweinidog, ar y cenhadwr o Lerpwl, Dr. H. Gordon Roberts, sylfaenydd Ysbyty Genhadol Shillong. Daeth Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, y Parch Ddr. Elwyn Richards i'n plith, ac yn ei sgwrs cyfeiriodd ar yr angen i godi arian i foderneiddio yr Ysbyty. Y mae Apêl y Llywydd a fu o dan ofal y Parchg. Trefor Lewis wedi cyrraedd 97 o filoedd a £500. Caiff pob copi o *Healer of Shillong* ei werthu am £10 yn yr eglwysi er mwyn sicrhau y gwnaiff yr Apêl gyrraedd can mil o bunnoedd (£100,000). Bwriadwn wneud ein gorau i werthu rhai ym Methania. Cawsom gyfarfod da o dan lywyddiaeth Mr. John P. Lyons. Ond chwith oedd gweld colli Marian o'r oedfa oherwydd gwaeledd. Bu yn bur wael ond diolch ei bod yn teimlo ychydig yn well y dyddiau hyn. Gweddïwn ar ran y teulu yn y dyddiau hyn, a chefnogwn hwy fel eglwys bob amser.

Daeth adroddiad yr Eglwys allan ac y mae'n werth ei ddarllen. Diolchir i'r swyddogion am ei gofal ac am y sglein a welir ar y cyfan.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

**Chwefror 1af.** Cynhaliwyd cyfarfod gweddi Cenhadol ar y nos Lun cyntaf o'r mis. Cymerwyd rhan gan amryw o'n haelodau mewn darlleniadau, myfyrdodau a gweddïau. Er ein bod yng nghanol y gaeaf mae arwyddion gobaith yn y tir, hedyn yn blaguro ac yn gwthio ei ffordd drwy'r pridd, a byrdwn y diolch oedd i Dduw ddarparu dau Wanwyn ar ein cyfer ac i'r ysbryd hwnnw fod ar waith yn ein bywydau pa le bynnag fo'r galw.

**Chwefror 8fed.** Cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol pryd y cafwyd sgwrs hwyliog rhwng Dr. D. Ben Rees a Mr. Bill McEvoy. Holwyd Bill am ei gefndir, a sut y cafodd Cymro glân, gloyw gyfenw o'r fath. Wel, Gwyddel oedd ei dad a fu yn filwr yn y ddau ryfel byd, a'i fam yn Gymraes o wlad Llŷn, a chyfarfu y ddau yma yn Lerpwl, a symud i fyw i Lundain. I dawelwch gwlad Llŷn y daeth Bill yn dair oed i fyw hefo'i daid a'i fodryb, ac yn ei eiriau ei hun – cafodd blentyndod bendigedig. Bu ei berthynas



***Bill McEvoy a'r Holwr mewn afiaith***

â'i daid yn un arbennig iawn. Cwmwd bychan o ffermydd yw Bodeuan gyda ysgol, capel ac eglwys.

Aeth ymlaen wedyn i Ysgol Sir, Pwllheli a'r athro a edmygodd fwyaf yno oedd Mr. John Gwilym Jones. Cadwodd mewn cysylltiad agos ag o am flynyddoedd maith. Ar ôl gadael yr ysgol, derbyniodd hyfforddiant i fod yn gynlluniwr mapiau. Yna ymunodd â'r fyddin a threulio peth amser yn yr Aifft a Kenya, a chyfarfyddodd â'r Cadfridog Montgomery ('Monty') ar ei daith.

Daeth yn ôl i Lannau Mersi a chyfarfod â'i ddiweddar briod Mona, hithau yn un o Gymry Lerpwl a ganwyd dau fab iddynt, Paul ac Ian.

Holwyd ef am y dylanwad mwyaf ar ei fywyd, a'i ateb pendant oedd Eglwys Bedyddwyr Cymraeg, Edge Lane yn ystod gweinidogaeth y Parch I. C. John.

Ei ddiddordebau yn ifanc oedd bocsio a rhedeg, a bu am gyfnod yn rhedeg i'r Liverpool Harriers yn Wavertree. Mae heddiw yn dal i gerdded llawer ac yn ddarllenwr mawr.

Bu llawer o gyd-ddigwyddiadau yn ei fywyd ac yn arbennig yn ystod y rhyfel. Noson fyrlymus gyda hiwmor iach. Diolch i'r ddau.

**Chwefror 11eg.** Cynhaliwyd angladd Mr. Glyn Williams, Halewood yn y capel am dri o'r gloch y pnawn ac yna yn Amlosgfa Springwood am bedwar. Magwyd ef ar aelwyd Gymraeg yn Kensington a bu'n gweithio am flynyddoedd maith ar y dociau. Cydymdeimlwn fel Eglwys âi briod Sheila a'i fab Richard a'r teulu estynedig. Diolchwn i'r Parchedig Ddr. D. Ben Rees am wein yddu yn y gwasanaethau a'i fugeiliaeth dros y teulu. (Gweler y deyrnged iddo yn yr *Angor*).

**Chwefror 22.** Pnawn Llun am 1.30 bu Cyfarfod Dosbarth arbennig iawn ym Methel pan gyflwynwyd cyfrol Saesneg o eiddo'r gweinidog ar y cenhadwr meddygol Dr. H. Gordon Roberts. Mae adroddiad o'r cyfarfod yn yr Angor y rhifyn hwn.

Bore Mercher, 17 Chwefror bu farw Mrs Edna Thomas, Argoed, Gateacre yn ei chartref. Roedd yn wraig annwyl a chroesawgar iawn a bu fyw i oedran teg o 92 yn ei chartref. Bu ei harwyl yn Amlosgfa Anfield o dan ofal ei gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees ar bnawn Llun, 7 Mawrth am 1.20 o'r gloch.

Cydymdeimlwn â Mrs Gwenfyl Bain o golli ei chwaer yn Llannefydd a Mr. Ken Williams o golli ei frawd ym Mhontyberem. Cofiwn amdanynt.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Ein cyfaill a chyd-aelod, Mr Trefor Roberts oedd ein siaradwr ar Chwefror 1af gyda hanes trychineb y llong tanfor *"Thetis"* ym Mehefm 1939. Mae gan Trefor ddiddordeb personol yn yr hanes am iddo, fel amryw o ddynion ifanc Cymreig, fynd i weithio i Cammel Lairds, Penbedw. Cysylltiad arall oedd ei berthynas a Mr Irwedd Vaughan, ei frawd yng nghyfraith, a weithiodd ar y llong ac

a gyfrannodd at rhaglen amdani a wnaed gan S4C. Roedd gwaith Cammell Lairds ar y llongau tanfor yn hanfodol yn y blynyddoedd yn arwain at yr ail ryfel byd. Lle roedd gan yr Almaenwyr gannoedd o *U-boats*, ychydig iawn oedd gan y wlad hon nes i Cammell Lairds ddechrau cynhyrchu'r "T Class Submarines", sef Trident, Taku a Thetis, yn 1937 a'r 'Thetis' oedd llong tanfor mwyaf modern y Llynges Brenhinol. Costiodd £350,000. i'w chynhyrchu.

Gan Trefor, cawsom ddisgrifiad manwl o'r broses o adeiladu, ffitio, a lansio'r llongau hyd at eu treialon môr cyntaf.

Trefnwyd treialon môr '*Thetis*' ar y Clyde, ac yn Ebrill 1939 cafwyd helyntion cyn gadael y Mersi pan fethodd y peiriant a reolai mecanyddiaeth y llyw.

Meddai un docwr: *"There's a jinx on that submarine"* – proffwydoliaeth anffodus a wireddwyd. Bu'n rhaid gohirio treialon y môr hyd Mehefin 1af 1939, a'u cynnal ym mae Lerpwl.

Ar y diwmod pwysig, un braf a thawel, yn ogystal a'r criw o bum deg naw, roedd nifer o wylwyr technegol a swyddogion y llynges ar y "*Thetis*", yn gwneud cyfanswm o gant a thri – rhai ohonynt yn mynd "am y trip" – sef pedwar deg chwech mwy nag y ddylai fod arni.

Methodd yr ymsuddo cyntaf oherwydd ysgafnder y llong ac er mwyn creu "*ballast*" i'w thrymhau, penderfynwyd llenwi dau o'r chwech pibell dal "*torpedoes*" â dŵr. Yn anffodus, ac o ddiffyg gofal trwyadl, roedd drws pibell arall heb ei gau yn iawn, a'r *valve* wedi methu. Pan suddodd y llong am yr ail gynnig, llifodd y dŵr i mewn i'r bibell wag ac aeth y *submarine* i waelod y dyfroedd.

Achubwyd ond pedwar a ddaeth allan drwy'r "*escape hatch*", cyn i'r *hatch* fethu, a chloi y gweddill yn y llong. Gwenwynwyd nawdeg naw gan "*carbon dioxide*". Trychineb erchyll a waethygwyd yn fawr oherwydd mwy o gamgymeriadau cyfathrebu rhwng swyddogion y llynges, sef lleoliad anghywir y suddo, gwybodaeth yn mynd ar goll a ffaeleddau eraill yn golygu oriau o oedi cyn i longau cymorth gyrraedd y fangre.

Ym mhen tri mis, ar ddiwrnod cyhoeddi'r Ail Ryfel Byd, sef Medi 1939, codwyd y *Thetis* i Draeth Bychau, Ynys Môn. Claddwyd llawer yn y môr, a chodwyd cof golofn iddynt ym mynwent Maeshyfryd, Caergybi. Claddwyd eraill gan eu teuluoedd. Daeth y llong yn ôl i Benbedw, a'i hail gomisynnu yn 1940 fel '*Thunderbolt*' i weithredu ym môr Y Canoldir a'r Iwerydd cyn ei tharo yn farwol gan '*torpedo*' Eidalaidd yn 1943.

Ar lawr Môr y Canoldir mae hi'n dal i orwedd – a rhydu – hyd heddiw ond erys y drychineb yn fyw yn y teuluoedd a gollodd anwyliad. Colled na ddylai fod wedi digwydd, a sydd yn destun poen a chwerwder hyd heddiw. Ni chafwyd ymddiheuriad ac ni chymerwyd cyfrifoldeb gan y Morlys na'r llywodraeth. Tybed oedd diogelwch y llong yn bwysicach na bywyd y morwyr?

Pleser oedd croesawu Mr Alwyn Jones, Llanelian, ger Abergele atom ar Chwerfror 15fed. Treuliodd ei ieuenctid ym mhentref Dolwen lle 'roedd ei dad yn felinydd a gyrrwr loriau ac ar ddechrau'r sgwrs cawsom ddysgu am weithredu'r felin lle 'roedd y teulu yn malu ceirch a gwenith a chynhyrchu bwyd anifail, blawd Hovis, a blawd pobi. Gyda'i dad teithiodd Alwyn i sioeau drwy'r wlad a chyfarfod amryw o gymeriadau diddorol. Canlyniad i'w fwynhad o'r sioeau, ac ar ôl gorffen ei addysg yn ysgol Ramadeg Abergele, ymunodd â chwmni Arwerthwyr a Phriswyr Richard Pearce, lle mae'n parhau i weithio. Mae'r cwmni yn marchnata tir, stadau ac anifeiliaid ac mae gan Alwyn hanesion difyr am ei brofiadau mewn stadau mawrion a chartrefi syml gogledd Cymru. Diddorol oedd clywed am y newidiadau cymdeithasol sydd i weld wrth ddarllen catalogau y cwmni dros ddwy ganrif – llawer o'r stadau mawrion wedi diflannu a rhesi o dai wedi adeiladu arnynt. Ond mae nifer fawr o'r hen deuluoedd yn parhau yn yr ardal ac yn cyfrannu at y gymdeithas eang.

Trwy ei wybodaeth o'i ardal, cynlluniodd Alwyn fap manwl iawn o gaeau ei filltir sgwâr gydag enwau llawer iawn ohonynt. Mor bwysig yw gwaith unigolion fel hyn yn rhoi hen enwau Cymraeg cyn iddynt ddiflanu. Enillodd wobr gyda'i fap sy'n cael ei ddefnyddio gan hynafeithwyr ac ymchwilwyr hyd heddiw. Gyda'i lais cryf fel arwerthwr, ei gariad at ei waith a'i gynefin a'i gyflwyniad cartrefol a doniol, rhoddodd Alwyn, noson hyfryd a chofiadwy i ni fel Cymry. A dyna oedd geiriau Arwel Evans wrth gyflwyno ein diolchiadau am gyfarfod diddorol a hwyliog.

## DIOLCH O LE CYFYNG

*Angel ein Duw a dry yn gylch*
*O amgylch pawb a'i hofnant;*
*Ceidw ef hwynt, a llawer gwell*
*Na chastell yw eu gwarant.*

Profiad y Parchedig John Jones, gweinidog enwog Talsarn ag yngtau wedi dianc rhag ei ladd yn Chwarel Dorothea. Ysigodd y cwymp ef drwyddo ac ni fu'r un fath byth wedyn.

## Cymdeithas Cymry Manceinion

Teulu Brenhinol Gwynedd oedd teitl darlith y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda, Arfon ar ei ymweliad cyntaf â'r Gymdeithas ym mis Ionawr. 'Roedd bro ei febyd yng nghyffiniau Abergwyngregyn yn drysorfa o lefydd ac enwau hanesyddol ond nid oedd wedi sylweddoli hynny ar y pryd pan oedd yn fachgen yn troedio'r wlad.

Soniodd am y wefr o bysgota pluen yn yr Afon Goch – ardal a oedd yn drigfan i dywysogion y dyddiau gynt. Abergwyngregyn a'r cyffiniau oedd y llefydd pwysicaf yng Nghymru yn y 13 ganrif ac yn gysylltiedig â Llewelyn Fawr a Llewelyn ein Llyw olaf. Yn dilyn anghytudeb â brenin Lloegr a llawer o frwydro, fe laddwyd yr etifeddion a gyrrwyd y merched i leiandai yn Lloegr. Mae'r beddau yn dal yno yn enwedig bedd y dywysoges Gwenllian sydd yn Sempringham lle y deil llawer o Gymry i fynd ar bererindod i gofio'r hen hanes trist.

Diolchwn yn fawr i Ieuan Wyn am noson arbennig iawn, a ninnau yn falch o fod yn Gymry i gael rhannu ein hanes gydag un mor wybodus yn y maes.

Daeth tymor y Gymdeithas i ben fis Chwefror yng nghwmni Mr R. Ifor Griffith o Lerpwl. Testun ei ddarlith oedd Dau gerddor Cymreig. Y gyntaf oedd Leila Megane, enw adnabyddus fel cantores i bob Cymro. Fe aned Margaret Jones ym Methesda yn 1891, cyn symud i Bwllheli yn blentyn bach. Magwyd hi ym myd yr eisteddfod ac aeth ymlaen i Lundain. Cafodd yrfa ddisglair yn nhai Opera Monte Carlo, Covent Garden a Paris.

Priododd â T. Osborne Roberts a buont yn byw yn Efrog Newydd cyn dychwelyd i Gymru. Bu farw Osborne Roberts yn 1951. Fe ail-briododd Leila Megane â William John Hughes o Efailnewydd a mynd yno i fyw. Bu hithau farw yn 1960.

Meirion Williams o Ddyffryn Ardudwy oedd yr ail gerddor y cawsom ei hanes. Cyfansoddwr a chwaraewr piano ardderchog. Ar ôl hyfforddiant ym mhrifysgol Aberystwyth a'r Academi Frenhinol yn Llundain, fe gyfansoddodd emyn-donau a chaneuon adnabyddus. 'Roedd natur a llefydd arbennig yn apelio ato a hyn yn amlwg yn ei gerddoriaeth. Bu'n dysgu chwarae'r organ a'r piano yn Llundain a gadawodd waddol ar ei ôl. Bu farw yn 1976 yn 75 mlwydd oed ac fe'i claddwyd yn Nyffryn Ardudwy.

Yn ogystal a'u hanes, cawsom glywed recordiau o lais hyfryd Leila Megane a chaneuon Meirion Williams yn cael eu canu gan Bryn Terfel. Noson hynod o ddiddorol i gloi gweithgareddau'r Gymdeithas am eleni.

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL

Nid yn aml y cawn gwmni cyn Aelod seneddol â'i wreiddiau ar y Glannau i annerch yn y Gymdeithas. Yn nechrau Chwefror cawsom cwmni Gareth Thomas, a fu'n Aelod Seneddol dros Orllewin Clwyd, ac sydd yn awr yn fargyfreithiwr yn Lerpwl. Bu'n sôn am ei fywyd ac am ei yrfa amrywiol. Ganwyd ef ym Mangor a'r teulu yn byw ym Mhenygroes. Symudodd y teulu wedyn i fyw ym Mhenbedw pan oedd yn dair oed ac 'roedd yn falch o'i fagwraeth Gymraeg yn Capel Laird Street, Ysgol Sul Undebol Penbedw a Chymdeithas Cymry Penbedw. Aeth i Ysgol Uwchradd Rock Ferry ac yna i Brifysgol Aberystwyth i astudio'r gyfraith. Er hynny ei brif ddiddordeb yn y Brifysgol oedd actio. Ar ôl graddio bu am gyfnod yn gweithio gyda chwmni yswirant yn Barbados cyn dod i Lerpwl i weithio fel bargyfriethiwr. Roedd ganddo ddiddordeb mawr yng ngwleidyddiaeth. Cafodd ei ethol i Senedd San Steffan dros y blaid Lafur yn yr etholiad cyffredinol yn 1997 gan gipio sedd Gorllewin Clwyd oddiar y Ceidwadwyr. Rod Richards oedd yn cynrychioli y Ceidwadwyr ar y pryd.

Yr oedd yn aelod o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, y Pwyllgor Dethol ar Nawdd Cymdeithasol a'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol. Yn dilyn etholiad cyffredinol 2001 cafodd ei benodi yn Ysgrifennydd Seneddol Preifat i Ysgrifennydd Gwladol Cymru sef Paul Murphy, a symudodd gyda Murphy i Swyddfa Gogledd Iwerddon wedyn. Collodd y sedd yn etholiad 2005 o drwch blewyn a dychwelodd yn ôl i Lerpwl i weithio fel bargyfreithiwr unwaith eto.

Ar ddiwedd ei sgwrs gofynnwyd cwestiynau iddo gan rhai o'r gynulleidfa – cwestiynau am gyfundrefn Chwipiaid y pleidiau, Jeremy Corbyn, Tŷ'r Arglwyddi, Annibyniaeth i Gymru, y Cynulliad yng Nghaerdydd ac eraill. Ar ddiwedd y sesiwn cwestiynau dywedodd mae nid gyrfa yw bod yn Aelod Seneddol ond dyletswydd a braint. Y sawl sydd yn ennill y seddau ymylol (*marginal seats*) sydd yn penderfynu pa blaid sydd mewn grym yn y Llywodraeth ac yn ei dyb ef 'roedd y mwyafrif llethol o'r aelodau seneddol yma yn gweithio'n gydwybodol iawn er mwyn eu hetholwyr.

—o—

Un o brif swyddogion yr Eisteddfod oedd ein gwestai nesaf sef Dyfrig Roberts (Dyfrig ap Ifor, yr Arwyddfardd) ond nid ei swydd Eisteddfodol oedd testun ei ddarlith. Thema 'Gwên yn y gwaith' oedd hanesion am ei yrfa fel peiriannydd sifil dros lawer o flynyddoedd. Dechreuodd trwy amlinellu beth oedd gwaith peiriannydd sifil. Y gred boblogaidd yw mai ond adeiladu pontydd yw eu gwaith ond cyflwynodd Dyfrig restr o brosiectau eraill yr oedd wedi bod yn gysylltiedig â hwy dros y blynyddoedd e.e. sefydlogi clogwyni, sefydlu cyfundrefn pwmpio dŵr yn Dinorwig, cynllunio unedau puro dŵr.

Bu galw am ei brofiad yn y gwaith gan gwmniau yswirant hefyd, cwmniau oedd angen cael asesiadau o geisiadau am iawndal wedi i ddiffygion ymddangos mewn adeiladau.



***Mair Roberts a Dyfrig Roberts***



***Dr. John G. Williams a Gareth Thomas***

Clywsom nifer o hanesion anhygoel a fe'i cyflwynodd mewn ffordd hwyliog. Roedd y noson yn agoriad llygad i ni gyd.

Wedi egwyl hanner tymor cawsom noson bleserus iawn yn nghartref Dr Pat Williams. Yr oedd wedi paratoi crempoga i ni o sawl math ac roeddynt yn flasus iawn. Cawsom gyfle i sgwrsio a dathlu penblwydd arbennig Devida Broadbent ac Olwen Foreman. Diolch i Pat am ei chroeso. Gwnaed elw tuag at Ginio Gŵyl Ddewi.



***Olwen Foreman, Norma Lloyd Owen a Devida Broadbent***



***Noson y crempoga***

***Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi / Merseyside Welsh Heritage Society***

(Registered Charity)

# O Lanrwst i Lerpwl - Teulu Nodedig David Roberts

Ar benwythnos **Mehefin 11-12, 2016** cynhelir Gŵyl i ddathlu cyfraniad David Roberts a'i ddisgynyddion, John Roberts A.S., David Trevor Roberts a John Herbert Roberts, A.S., Barwn Clwyd, i fywyd a datblygiad Lerpwl ac ar lwyfan cenedlaethol.

**RHAGLEN:**

***Sadwrn, Mehefin 11***

**10.00-11.15 –** Cyflwyniad a darlith gan Dr. D. Ben Rees ar 'Bywyd a Gwaith David Roberts, Hope Street a John Roberts, A.S., (1835-1895)' (yn Gymraeg ag anoddau cyfieithu ar y pryd).

**11.15-11.45** – Egwyl goffi

**11.45-1.00 –** 'Disgynyddion David Roberts' yn cynnwys David Trevor Roberts (1865-1935) a J. Herbert Roberts, A.S. (1863-1955) gan Lawrence Holden (yn Saesneg)

**Sadwrn: 7.30p.m.**

Cyngerdd yng Nghapel Elm Hall Drive.

**Dydd Sul, Mehefin 12: 10.30a.m.**

Gwasanaeth o Ddiolchgarwch yn Bethel dan arweiniad y Parchedig Dr. D. Ben Rees

***Cynhelir y cyfarfodydd yn y Ganolfan Gymraeg, Bethel, ac yng Nghapel Elm Hall Drive***

# DOSBARTH Y DYSGWYR BOB NOS LUN



*Dau arall o'r Dosbarth Cymraeg*

Pob nos Lun daw criw mawr ynghyd i'r sesiwn Siarad Cymraeg o dan arolygiaeth Mr Mike Farnworth. Bu yr arbrawf hwn yn gryn lwyddiant a mawr obeithiwn y wnaiff barhau felly.



*Arolygwr y noson a'r Dysgwyr ynghyd a Siân Hartley*

*Coffâd*

# MR. GLYN WILLIAMS, HALEWOOD

**(1948-2016)**



Perthynai Glyn Williams i deulu o Gymry a ddaeth yn wreiddiol o Fôn, ei dad Owen Willams a'i fam Margaret Williams yn preswylio yn Adelaide Road, Kensington. Ef oedd y trydydd plentyn, ei chwaer Anne Clitherow, ei frawd Owen Williams, Maghull (y ddau wedi ein gadael), a'i chwaer Mrs Margaret Shaw a'i frawd Howell. Bum yn rhan annatod o'r teulu ar ôll iddynt ddod atom i Bethel ar ôl yr uniad yn 1976. Aelodau yng nghapel Edge Lane oedd y teulu a'i fam yn chwaer i'r Parchedig D. Lloyd Williams (tad y bardd Iwan Llwyd a'r actor Llion).

Ganwyd Glyn yn 1948 a'i addysgu yn Ysgol Gynradd Rathbone a'r Collegiate cyn treulio ei holl yrfa ym myd llongau a dociau. Bu am gyfnod da yn gweithio yn Doc Garston, *Coastal in Containers,* ac ar ôl Rhyfel Cyntaf Irac fe'i darbwyllwyd gyda'i wybodaeth a'i fedr i fynd allan i Kuwait i adfer y porthladd a ddinistriwyd yn y rhyfel.

Bu yno am bum mlynedd, o 1991 i 1996.

Llwyddodd i gael ei briod Sheila a'i fab Richard i ddod allan ato yn 1992, a derbyniodd y tri ohonynt brofiadau cwbl wahanol, cyn dychwelyd yn ôl i'w cartref. Bu yn gweithio ar ôl hynny yn nociau Seaforth cyn ymddeol yn 62 mlwydd oed, a buan y bu'n rhaid iddo ddioddef o glefyd y cancr. Ni chwynodd ond gwynebodd ar y cyfan gyda dewrder. Yr oedd yn rhoddi pawb arall yn gyntaf ac yn dilyn ei ddiddordebau. Yr oedd yn gefnogydd brwd i dîm pêl-droed Everton ac yn hoff o drenau stêm, a'i hoff injan oedd y *Flying Scotsman*. Ail ymaflodd yr aflwydd ynddo yn 2015 ond cafodd ofal mawr gan ei anwyliaid, a bu farw yn ei gartref yn Halewood ar ddydd Gwener, 29 Ionawr 2016 yn 67 mlwydd oed.

Bu'r arwyl yng nghapel Bethel, Heathfield Road ar bnawn Iau, 11 Chwefror o dan fy ngofal gyda Mrs Margaret Anwyl Williams wrth yr organ. Gan ei fod yn siarad Cymraeg darllenwyd Salm y Bugail yn iaith ei febyd, a daeth cynulleidfa gref ynghyd i gofio gŵr tawel, preifat, ond parchus o bawb, a'i fagwraeth yn amlwg yn ei berthynas a phawb ohonom. Defnyddiodd y teulu linell o emyn 'Hedd, perffaith hedd' wrth gyfeirio at ei farwolaeth yn yr *Echo*. Gwir hynny.

D. Ben Rees

---

*Coffâd*

# Anna Elizabeth (Betty) Williams, West Kirby

**(1927-2016)**



Ganwyd Betty Williams fel y'i gelwid hi gan ei theulu a'i chydnabod ar 1 Tachwedd 1927 yn Rhydaman, yr ieuengaf o blant David a Blodwyn Harries. Bu ei thad yng nghanol brwydr fawr Gallipoli, ond fe'i arbedwyd, a daeth yn ôl i fywyd glöwr yn ardal y glo carreg. Er fod yr amgylchiadau yn anodd cafodd hi a'i chwaer Enid a'i chyfnitherod fagwraeth dda, a gan fod teulu ei mam yn ffermio cafwyd aml i gymwynas.

Yr oedd Betty yn ferch alluog ac enillodd ysgoloriaeth i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, i astudio Saesneg, Ffrangeg a Daearyddiaeth. Cyfarfu ag un o Gymry Lerpwl, Raymond Williams, a ddisgleiriodd fel peilot *spitfires* yn Burma ac ennill y DSO. Myfyriwr yn Adran y Gyfraith oedd ef, ac o'r garwriaeth honno, priodwyd hwy yn 1951 a dechrau ei byd yn St. John's Wood yn Llundain. Ganwyd ei mab Richard yn 1952, a derbyniodd Raymond swydd gyda Chwmni Bremner Sons & Corlett gan symud yn ôl i dref ei febyd.

Symudwyd i ardal Childwall ac yno ganwyd yr ail fab Nigel a ddilynodd yn llwybrau ei dad fel twrnai. Yr oedd Betty a Raymond yn bartneriaid hoffus. Yr oedd hi yn drwsiadus, llawn hiwmor, yn hoff o chwaraeon, chwaraeodd golff yng nglwb Woolton, ac yn ddiweddarach yn Caldy. Hoffai'r ddau deithio, a bu ymweliadau mynych â Ffrainc a'r Eidal ar yr agenda. Gyrrai y ddau ar y teithiau hynny. Tro arall bu'r teulu yn Groeg, Jamaica, Zimbabwe. Collwyd Ray yn yr angau yn 2004, colled aruthrol i ni yn Eglwys Bethel a'r Henaduriaeth gan mae ef oedd ein cyfreithiwr. Erbyn hynny yr oeddynt wedi symud o Gateacre i Caldy ers rhai blynyddoedd. Llwyddodd Betty i oresgyn y brofedigaeth gan bod ei theulu yn byw fel hithau ar y Wirral, a bod ganddi ffrindiau da.

Cymerai ddiddordeb mawr mewn materion cyfoes. Ni chollai raglen *Andrew Marr* ar fore Sul, a darllenai y *Telegraph* yn fanwl, gan lwyddo i gwblhau y croesair. Nid oedd henaint wedi dal i fyny a hi, a bu farw yn sydyn dros ben yn ei chartref ar 31 Ionawr yn 88 mlwydd oed. Cynhaliwyd yr arwyl yn Amlosgfa Landican o dan fy ngofal ar fore Gwener, 26 Chwefror a daeth tyrfa gref ynghyd i dalu teyrnged i un o Gymry Cilgwri. Cydymdeimlir gyda meibion Richard a Carole, Gemma a Richard, hefyd gyda Nigel a Susan, Holly, Sophie a Richard (Raymond) Williams yn eu colled.

*D. Ben Rees*

# Adolygiad ar Gyfrol Gyffrous a Difyr

Y manylion: D. Ben Rees, ***The Healer of Shillong: Reverend Dr. Hugh Gordon Roberts and the Welsh Mission Hospital. Lerpwl***
Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 2016. Pris: £12.99




'Eglwys Gadeiriol' symbolaidd o adeiladwaith a ddechreuwyd lawer o flynyddoedd yn ôl. Mae'r adeiladwaith yn gymhleth ac yn fawreddog. Mae digon o le i wahanol enwadau, ysbytai, gweinyddwyr, nyrsys ac elusenwyr y tu mewn iddo. Ond nid brics na chlai na phren ond pobl oedd sgaffaldwaith cynhaliol yr adeiladwaith. Ond doedd neb wedi disgrifio'r prosiect rhyfeddol hwn yn llawnach, yn fanylach nag yn well na Dr. D. Ben Rees. Duw a'i hadeiladodd. Ceir 152 o dudalennau yn y gyfrol hon gan gynnwys 23 o luniau.

Mae'n debyg nad oedd y gwasanaethwyr glew a fu'n llafurfio yn Ysbyty Shillong yn ei ystyried yn anturiaeth. Ond hynny ydoedd. Yn y flwyddyn 2022 bydd yn dathlu ei ganmlwyddiant. Cedwir llawer o ddeunydd yr hanes, gan gynnwys y lluniau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Thomas Jones a'i wraig oedd y cenhadon cyntaf; a Lerpwl oedd canolfan trefniadaeth y Genhadaeth Bresbyteraidd gyntaf cyn diwedd 1840. Gwnaethant hynny yn nannedd rhwystrau gan Gymdeithas Genhadol Llundain.

Emynydd a brodor o Lerpwl, sef y Parch John Roberts ('Minimus' 1808-1880) oedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf ar gyfer Cenhadaeth Assam a Gogledd-ddwyreiniol yr India. Ac arhosodd yn y swydd yn ddi-gyflog am chwech ar hugain o flynyddoedd. O hynny ymlaen ceir rhestr arwrol o bobl yn y symudiad aruthrol hwnnw.

Cafwyd gwrthwynebiad wedyn gan Llywodraeth India i sefydlu Ysbyty yn Shillong. Ac felly penderfynwyd yn 1913 i sylfeini ryw saith milltir o'r dref, gyda'r Parchedig Ddr. Gordon Roberts yn bugeilio'r anghenion ysbrydol mewn ardal chwarter maint Cymru. Ond nid felly y gwnaethpwyd. Pan gyrhaeddodd Dr. Roberts yr India, mynnodd mai Shillong oedd yr union le i'r gwaith. Doedd dim arian i'w adeiladu yn ôl fel y deallwyd ar y pryd, doedd dim caniatád chwaith i wneud apêl ariannol. Ac felly, aeth Dr. Roberts allan yno heb ddim cronfa. Ond cafwyd swm priodol eisioes o'r neilltu mewn Cronfa Ddarparu i Ddaeargrynfeydd. Ac felly ymlaen o anhawster i anhawster, gydag ambell ddigwyddiad megis y Rhyfel Mawr a'r gwasanaethau militaraidd Indaidd yn mynnu cymorth. Cafodd y llawfeddyg dinesig ym Mryniau Khasia i gonsgriptio, a threfnwyd bod ei ddyletswyddau ef yn cael ei hatodi i rai Dr. H. G. Roberts.



*Ysbyty Shillong heddiw*

Cafodd Dr. Roberts foto-beic. Dechreuwyd adeiladu'r Ysbyty, ac yna daeth y gaeaf i'r mynyddoedd. Mae'r holl hanes o hyfforddi nyrsys a llawfeddygon lleol mewn mannau diarffordd yn wyrthiol, nid annhebyg i'r hyn a gaed mewn mannau diarffordd anghysbell yng Nghymru. Gwych yw gweld y fantolen ariannol drylwyr bythol gynyddol sy'n rhoi asgwrn cefn i'r prosiect. Ac yn y canol, tynnir portread o Dr. Roberts sy'n sicr yn un o'r darluniau o Gymry ymhlith y mwyaf nodedig yng Nghymru.

**A rhaid i mi gyfaddef na wyddwn ddim amdano, er mawr gywilydd i mi. Ni ellir crybwyll mewn adolygiad y ganfed ran o'i hanes. Ond diolch i'r Parchedig Dr. D. Ben Rees am adroddiad mor gyffrous a difyr a gwledigaethus. Gellir cymeradwyo'r gyfrol gyda'r brwdfrydedd mwyaf.**

***Dr. Bobi Jones, Aberystwyth***

Myfyrdod

# Gwynfyd Unigedd

gan Elwyn Parry

Dyma gwestiwn i chi – pwy ddywedodd, ac erbyn heddiw mae'n *catchphrase* i ddisgrifio actores o hyd – *"I wanna be alone"?* Ie, ydych yn iawn sef Greta Garbo. Ni fedraf gredu am funud ei bod yn hiraethu am unigrwydd. Mae'n siwr ei dymuniad oedd ddirgelfa neillduaeth, fel dywed y Sais *privacy*.

I fod yn unig mae'n golygu dau beth gwahanol. Ar un llaw mae'n disgrifio stad na all unrhyw un ei fwynhau. Arswydai rhai oherwydd hyn ac mae llawer mewn profiad ohono fel ddywedodd John Betjman un tro *the poor, unbeloved ones*. Ond, wedyn, fe all olygu unigedd fel syniad positif ac yn unig yn syniad negyddol. Mae un wedi ei orfodi a'r un arall yn ddewisedig. Un yn dod a phoen a'r llall dangnefedd.

Mae cri y rhai unig am deulu, ffrindiau, brawdgarwch yn gweiddi allan heddiw sef "neb o'n tu". Maent yn gweld bywyd yn hallt ac maent ar goll mewn byd di-gariad, pawb a hyd yn oed yr Eglwys weithiau wedi eu gadael i lawr. Eraill wedyn yn goroesi'r broblemau heb gŵyn a derbyn eu sefyllfa. Mae unigedd (*solitude*) yn hollol wahanol. Yn wir dyma beth mae rhai'n chwilio amdano gan ei fod yn greadigol ac yn fuddiol i fod yn onest efallai nad yw yn beth iach oherwydd dibynnu ar neillduo o'r byd a'i broblemau. Ond yn wir mae yna ochr arall sef chwilio am unigedd sy'n golygu yr angen i fod yn unig gyda DUW ac ym mhresenoldeb DUW. Cofiaf am yr emynydd William Cowper a'i holl dreialon yn dweud "*how passing sweet is solitude*" ac fe ysgrifennodd emyn (Caneuon Ffydd 66). Cafwyd ei gyfieithu mor meistrolgar gan Lewis Edwards, Y Bala: "Trwy ddirgel ffyrdd......".

Dewch gyda fi i orffen y myfyrdod trwy sôn am agwedd a bywyd yr Arglwydd Iesu. Roedd ef yn gwybod Ei feibl onid oedd? Er fod yr Hen Destament yn llawn rhyfeloedd, ymrafael a thrais mae hefyd o werth amhrisiadwy o agwedd llonyddwch a thawelwch. Mor hoff oedd yr Arglwydd Iesu o'r unigedd. Sawl gwaith "yr enciliodd ef i'r mynydd i alw ar Ei Dad." Fel ddywedodd Wordsworth "*the bliss of Solitude*". Edrychwch ar Salm 46 "Distewch cans mae presenoldeb ......" Dyna hanes Elias yn brwydro yn erbyn proffwydi Baal – fe ddywedwyd wrtho i anwybyddu'r gwynt, y tân, a hyd yn oed y ddaeargryn OND y "llef ddistaw fain". Meddwl am yr annwyl Parch J. W. Jones, Conwy ar ei bregeth yn y Waenfawr ar Salm 23 – Soniodd am dangnefedd Duw ac os buasai dyn yn colli'r tawelwch yma y mae golled aruthrol fawr. Heddiw fe chwilir y pethau a gyfrifir yn "borfeydd gwelltog" miri, pleser a chyfoeth.

OND mae mawr angen am rywun ein harwain yn ôl at y "dyfroedd tawel". Ie, yn sicr, os yw bywyd chi a fi i fod yn oddefgar ac yn ffrwythlon mae'n rhaid inni ddysgu ystyr llonyddwch a thawelwch. Efallai ei bod yn amser inni gael amser, nid i siarad – gormod o hynny sydd wedi bod, ond "GWRANDO" a chanolbwyntio a myfyrio hyd ein eithaf ar DDUW, Awdur Gwynfyd Unigedd.


*Coffâd*

# ALUN ROBERTS,

## Woolton, Lerpwl

**(1926-2016)**

**Ganwyd Alun Roberts yn Lerpwl ar 13 Mai 1929 i Mr a Mrs Owen Roberts a deunaw mis yn ddiweddarach ganwyd ei frawd Emrys (Ynys Môn) a bu'r ddau yn agos iawn i'w gilydd ar hyd y blynyddoedd. Yr oedd gwreiddiau'r teulu yng ngwlad Llŷn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd cafodd y bechgyn brofiad o fyw yn y fro Gymraeg. Daeth Edern a Abersoch yn noddfa a lloches iddynt, a chyfle i fwynhau bywyd Ysgol Botwnnog. Derbyniwyd ef yn y Brifysgol ym Mangor i astudio Amaethyddiaeth ond penderfynodd dychwelyd i Lerpwl i weithio ym musnes ei dad yn Walton, sef gwerthu paent a phapur wal. A daeth yn gryn awdurdod ym myd y papur wal, roedd ganddo ddiddordeb creadigol a bu yn y busnes ar hyd y blynyddoedd.**



**Yr oedd yn hoff o athronyddu a thrafod a bu yn barod iawn i gynorthwyo cymdeithasau Cymraeg. Daeth yn un o arweinwyr Capel Cymraeg Garston, yn Ysgrifennydd yr Eglwys, ac yno y cefais ei adnabod, yn arbennig pan ddeuthum yn Weinidog yno yn Hydref 1978 hyd yr uniad yn 1992. Ond yr oedd ei briod Ceri (a fu farw yn 2000) yn affaeliad mawr i Ysgol Sul a'r Gorlan ym Methel, a'r plant dawnus, Elizabeth, Sian, Gareth a Marian. Cafodd hyfrydwch mawr yn eu cwmni, ac yn y nawdegau, ymunodd y teulu yn yr Eglwys Anglicanaidd, a chafodd Alun fodd i fyw yn litwrgi a gwasanaethau yr Eglwys Anglicanaidd Sant Pedr, Woolton.**

**Yno y bu ei arwyl ar bnawn Mawrth, 16 Chwefror o dan ofal y Ficer, Parchedig Kip Crooks. Yn ôl ei ddymuniad cafwyd oedfa ddwyieithog a braint oedd cael cynrychioli Cymry Lerpwl yn yr Oedfa Ddiolch am ei fywyd ymroddedig. Canwyd emyn 'I Hear your Tender Voice' gan bedwar o'r wyrion a'r wyresau, a darllenwyd o'r Gwynfydydau a'r dehongliad gwerthfawr o eiddo Alun gan ei ŵyr Matthew Davies. Ei dad oedd organydd yr oedfa a'i fam Sian a roddodd deyrnged gynhwysfawr i'w thad ar ran y teulu. O San Pedr cawsom wasanaeth yn Amlosgfa Springwood.**

**Yn ei waeledd olaf (bu farw 5 Chwefror) yr oedd mewn hedd perffaith, yn diolch i Dduw am y bywyd a brofodd a'r cyfle a gafodd i ddrachtio o ffynhonnau yr Efengyl. Bydd colled enbyd ar ei ôl.**

***D. Ben Rees***

## COLOFN Y BEIRDD

### *I gofio Merfyn Williams, Croesor*

*Rhoi'n ôl yw ein rhan o hyd – er y briw*
*Rhoi i bridd ei ysbryd,*
*Rhoi ei hyder i'w weryd –*
*Datod cwlwm bywyd byd.*

*Rhoi hanesion Meirionnydd – yn wylaidd*
*Eto'n ôl i'r meysydd,*
*Yna rhoi ei enaid rhydd*
*I awelon y moelydd.*

*Rhoi ei wên i groeso'r wawr, – rhoi'i ruddin*
*I'r holl ffriddoedd gwerthfawr,*
*Dan redyn y Moelwyn Mawr*
*Rhoi'i anian i dir Ionawr.*

*Rhoi i erwau ei Eryri – ei ddawn,*
*Rhoi ei ddysg i'r hen feini,*
*Rhoi'i ffarwel i'r chwareli –*
*Ei roi'n ôl yw ein rhan ni.*

***Cynan Jones, Nanmor***

*[Daw atgofion fyrdd o gyfraniad Cynan i Eisteddfod Lerpwl yn y saith degau pan oedd yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Lerpwl]*

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2016. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Mai 2016 –** erbyn bore Iau, 31 Mawrth, 2016 – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk
**ii) Rhifyn Mehefin 2016** – erbyn bore Llun, 2 Mai, 2016 – y lluniau, adroddiadau etc.
**iii) Rhifyn Gorffennaf 2016 –** erbyn bore Mawrth, Mai 31, 2016 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn ar Mehefin 1, 2016.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

Ariennir gan
Llywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn*
*07729 960484*

# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# Cyfrol i gynorthwyo Ysbyty bresennol Shillong

(parhad o'r dudalen flaen)

Bwriada Bethel a'r Gweinidog werthu o leiaf 250 o'r gyfrol am £10 y copi er mwyn i Apêl y Llywydd a gychwynwyd gan Trefor Lewis gyrraedd £100,000. Ar hyn o bryd y mae £97,500 wedi dod i law, a gall yr *Healer of Shillong* gyda'ch help, gyrraedd y ffigwr o gan mil sydd yn dweud y cyfan. Gweler adolygiad Dr. Bobi Jones, ar dudalen 9, a gallwch archebu eich cyfrol trwy'r post, fe gyst £12.99 felly, oddi wrth Golygydd yr *Angor*, neu yn siopau Cymru os yw hynny yn fwy cyfleus. Rhoddwn wybod i chwi sut y daw pethau i fwcwl - bob rhyw dri mis – ar hyd 2016. Diolchwn fod Llywydd y Gymanfa Gyffredinol wedi anrhydeddu ni gyda'i bresenoldeb. Golyga hyn lawer i ni ar y Glannau



***Rhai o aelodau Cantorion Bethel***



***Parchg. Trefor Lewis, Hen Golwyn yn adrodd am yr Apêl***



***Ciw i brynu y gyfrol (£10) o law yr awdur***



***Beryl Williams yn barod i dywallt y te***



***Y cymdeithasu braf ar derfyn y cyfarfod***



***Y wledd a gafwyd ar derfyn y lawnsio***

***Y lluniau o eiddo Dr. John G. Williams***